

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/02211/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

18 Medi 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 4 Medi ynghylch deiseb P-05-1027.

Rydym yn cydymdeimlo gyda goblygiadau y cyfyngiadau presennol ar leoliadau chwaraeon. Mae gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu, gan gynnwys chwaraeon tîm a dosbarthiadau, sy'n cynnwys hyd at 30 o bobl, wedi gallu mynd yn eu blaen. Ar 3 Awst, cafodd rhai cyfyngiadau ar gynnal digwyddiadau chwaraeon (gan gynnwys chwaraeon tîm a dosbarthiadau) eu codi. Bellach, mae grwpiau (pawb sy'n cymryd rhan/cystadleuwyr, staff tir a gwylwyr sydd yno ar gyfer y digwyddiad penodol) o hyd at 30, o wahanol aelwydydd, yn gallu cyfarfod y tu allan cyn belled â'u bod yn gallu cadw pellter cymdeithasol. Mae cyngor Llywodraeth Cymru ['Chwaraeon a hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol'](#) yn cynnig canllawiau cyffredinol ar weithgareddau awyr agored wedi'u trefnu.

Mae'r sefyllfa ynghylch digwyddiadau yn wahanol. Nid ydym eto yn y cyfnod pan y gallwn ganiatâu i grwpiau mwy na 30 ddod at ei gilydd mewn unrhyw leoliad am un pwrpas fel gwyllo digwyddiad chwaraeon neu gyngerdd, oherwydd risg hyn, yr anawsterau o reoli'r dorf, a chofnodi pwy sydd / oedd yn bresennol. Cyhoeddodd y Prif Weinidog yn ddiweddar y byddai tri digwyddiad prawf yn cael eu cynnal. Mae'r rhain wedi digwydd bellach ac roeddent yn golygu gweithio gyda nifer fechan o bartneriaid i reoli cyfres o ddigwyddiadau i'w cynnal yn yr awyr agored ond yn cynnwys digwyddiadau heb fod yn fwy na 100 o bobl. Mae'r gwersi sydd wedi'u dysgu o'r digwyddiadau prawf hyn yn cael eu hystyried o fewn y broses adolygu, ac mae swyddogion hefyd yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr ledled y DU, o dan nawdd Grŵp Cydlynnu Digwyddiadau y DU, i rannu gwybodaeth ac arfer gorau i lywio'r adolygiad ymhellach.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.